# Pwyllgor Enwi a Chymeradwyo Cymru

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 3 Rhagfyr 2015 10:30-12:00

## *Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Aeddan Davies (AD) | Cadeirydd, Llywodraeth Cymru |
| Graham Craig (GC) | Llywodraeth Cymru |
| Roland Allan (RA) | Llywodraeth Cymru |
| Kathryn Jenkins (KJ) | Llywodraeth Cymru |
| Del Morgan (DM) | Un Llais Cymru yn cynrychioli Cynghorau Cymuned a Thref |
| Ben Chapman (BC) | JSL |
| Henry Matthews (HM) | JSL |

## *Ymddiheuriadau*

| | |
|---|---|
| Matthew Peters (MP) | Cyngor Dinas Casnewydd yn cynrychioli Web Group Wales |

## *Croeso*

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, cyflwynodd y parthau llyw.cymru a gov.wales ac eglurodd ddiben y Pwyllgor. Eglurodd fod polisïau wedi'u diweddaru ar lefel y DU i annog pobl i fabwysiadu'r parthau. Gofynnwyd i'r aelodau am eu barn ar ba un a oedd unrhyw fylchau yn y gynrychiolaeth. Tynnodd GC sylw at y ffaith nad oedd y Parciau Cenedlaethol na'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'u cynrychioli ond ni theimlwyd bod hynny'n peri problem.

## *Ystyried ceisiadau*

2. Mae un cais wedi'i dderbyn, gan Gyngor Cymuned Henllys a chafodd ei wrthod oherwydd nad oedd yn bodloni'r polisi; gofynnwyd am henllyscommunitycouncil ond mae'r polisi yn nodi ei bod yn ofynnol i Gynghorau Cymuned ddefnyddio'r ôl-ddodiad -cc.

3. Gofynnodd DM a allai newid enw parth sefydliadau i fodloni'r polisi achosi dryswch. Roedd y grŵp o'r farn fod y risg hon yn dderbyniol gan nad oes unrhyw rwymedigaeth arnynt i newid a chytunwyd y byddai'r parthau presennol yn cael parhau i weithredu am gyfnod pontio o bedair blynedd.

4. Trafodaeth ynglŷn â phroses y Pwyllgor:
   - Pa un a dderbyniwyd ateb GC i bob aelod drwy ddefnyddio'r grŵp e-bost a grëwyd gan JSL?
   - Cytunwyd i geisio cytundeb pob aelod cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â chais.
   - Bydd JSL ddim ond yn gweithredu ar ateb gan AD.
5. Dywedodd BC y byddai cydweithwyr ar wahân iddo ef ei hun yn ymdrin â'r gwaith o reoli ceisiadau o ddydd i ddydd.

6. Gofynnodd KJ a oes deunyddiau ar gael yn ddwyieithog a chadarnhaodd BC eu bod ar gael ond rhesymeg yr atebion safonol i negeseuon e-bost yw i geisiadau am barth llyw.cymru gael eu hateb yn Gymraeg a cheisiadau am barth gov.wales gael eu hateb yn Saesneg. Eglurwyd ei bod yn ofynnol i bob ymateb fod yn ddwyieithog a'r Gymraeg i ymddangos yn

gyntaf. Nid oes fersiwn safonol o’r atebion gwrthod cais a bydd angen eu darparu’n ddwyieithog yn unigol.

**Cam gweithredu 1:** GC i sicrhau pa un a oedd ei ymateb i gais Cyngor Cymuned Henllys wedi cyrraedd pawb ac yna cydgysylltu gyda BC i sicrhau bod y grŵp e-bost yn gweithio.

**Cam gweithredu 2:** RA i ddarparu testun dwyieithog i BC i’w gynnwys ar ddechrau atebion safonol i rybuddio pobl sy’n ei dderbyn ei fod yn ddwyieithog.

**Cam gweithredu 3:** BC i sicrhau bod yr holl ymatebion yn cael eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg, un neges e-bost a’r testun Cymraeg yn gyntaf.

**Cam gweithredu 4:** AD i ddarparu atebion gwrthod dwyieithog i JSL.

## *Codi ymwybyddiaeth o’r parthau*

7. Nodwyd amryw o weithgareddau a gynhaliwyd ac a gynlluniwyd gan gynnwys cyhoeddi polisïau, prosesau, blogiau a thrydariadau.

8. Awgrymodd DM y gallai gynnwys gwybodaeth ar sianeli Un Llais Cymru a dywedodd fod tua 80% o'r Cynghorau Cymuned a Thref yn aelodau.

9. Awgrymodd KJ y gallai rannu gwybodaeth gyda WARP Wales.

10. Esboniodd BC bod angen i ni fod yn glir y bydd gan Gofrestryddion eu ffioedd eu hunain sydd ar wahân i’r rhai hynny a godir gan JSL.

11. Gofynnodd GC i DM a yw’r grant £500 ar gyfer gwefannau Cynghorau Cymuned a Thref yn dal i fod ar gael. Esboniodd DM nad yw ar gael bellach ac mai’r Awdurdodau Unedig a oedd yn gweinyddu’r grant a bod rhai ohonynt wedi annog Cynghorau Cymuned a Thref i gasglu eu cynnwys ar-lein ar wefannau ambarél, e.e. www.pembstcc.co.uk. Gofynnodd DM a oes unrhyw gyllid ar gael i gefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i symud i barth llyw.cymru a gov.wales, cadarnhaodd AD nad oes unrhyw gyllid ar gael ar hyn o bryd a gofynnodd DM a fyddai’n bosibl nodi cyllid. Cytunodd AD i ymchwilio i hyn.

12. Esboniodd DM, os bydd y gwaith o ad-drefnu Awdurdodau Unedig yn mynd yn ei flaen, y byddai ymarfer tebyg gyda’r Cynghorau Cymuned a Thref yn dilyn. Roedd o’r farn fod yr amserlenni tebygol yn golygu nad oedd hon yn ystyriaeth bwysig ar hyn o bryd.

**Cam gweithredu 5:** RA i roi awgrym ar gyfer neges i KJ ar gyfer WARP Wales.

**Cam gweithredu 6:** RA i roi awgrym ar gyfer neges i DM ar gyfer aelodau Un Llais Cymru, gan gofio bod llawer o Gynghorau Cymuned a Thref yn fach a’i bod yn annhebygol bod ganddynt arbenigedd yn y maes hwn ac felly mae cael cyngor mwy manwl yn debygol o fod o fudd iddynt e.e. atebion i gwestiynau tebygol.

**Cam gweithredu 7:** RA i ymchwilio i weld a allai cyllid fod ar gael i gefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i symud i’r parthau newydd.

## *Polisi Parthau*

13. Esboniodd DM bod amryw o enwau lleoedd yn Gymraeg yn cynnwys cysylltnod a bod angen eu caniatáu os yw enwau parthau am fod yn gywir; cytunodd yr aelodau y byddai hyn yn briodol.

14. Gofynnodd GC a fyddai dyfynnu Tîm Digidol Llywodraeth Cymru fel y pwynt cyswllt cyntaf yn briodol. Awgrymodd BC y dylid cyfeirio ymholiadau at ddesg cymorth JSL naming@jisc.ac.uk lle byddai cyfeirnod yn cael ei neilltuo i'r ymholiad.

15. Nodwyd y dylai'r ddolen honno i wefan JSL gael ei diweddaru gan fod y broses wedi'i chyhoeddi erbyn hyn.

16. Cwestiynodd DM yr ôl-ddodiad –rc / -cg ar gyfer cynghorau gwledig a dywedodd mai cyngor cymuned yw Cyngor Gwledig Llanelli mewn gwirionedd.

17. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha un a yw'r polisi yn caniatáu i sefydliadau gynnal parthau etifeddiaeth ac ailgyfeirio pobl at llyw.cymru a gov.wales am gyfnod pontio o bedair blynedd. Cytunodd aelodau y byddai'r polisi'n cael ei ddiweddaru i ganiatáu hyn yn eglur.

18. Esboniodd GC bod ymholiad wedi'i dderbyn ynglŷn â pharthau negeseuon e-bost yn unig ac nad yw'r polisi yn eglur ynglŷn â sut i ymdrin â'r rhain. Nodwyd na chaniateir parthau e-bost yn unig fel arfer ar gyfer gov.uk ac os y'u caniateir yna disgwylir i wefan ddilyn.

**Cam gweithredu 8:** RA i ddiweddaru a chylchredeg y polisi parthau i gael sylwadau ar:

- gyfeirio ymholiadau at naming@jisc.ac.uk
- cysylltu'n uniongyrchol â'r tudalennau mwyaf priodol ynglŷn â phrosesau ar wefan JSL
- dileu'r ôl-ddodiad ar gyfer Cynghorau Gwledig
- ei gwneud yn amlwg y caniateir ailgyfeirio o barthau etifeddiaeth am gyfnod pontio o bedair blynedd
- nodi na chaniateir parthau e-bost yn unig fel arfer
- caniatáu'r defnydd o gysylltnodau.

**Cam gweithredu 9:** RA i gysylltu â Chyngor Cymuned Sir Benfro ynglŷn â chynnig gwasanaethau e-bost yn rhan o becyn pembstcc.co.uk a symud y pecyn cyfan i barthau ail lefel Cymru yn y dyfodol.

## *Materion*

19. Mae Cyngor Gwynedd wedi adrodd nad yw cyfeiriadau e-bost @llyw.cymru a @gov.wales yn cael eu cydnabod gan GCSX fel parthau llywodraeth ac mae hyn yn atal negeseuon e-bost o'r parthau hyn rhag cael eu derbyn gan rai adrannau llywodraeth. Esboniodd KJ, yn rhan o'r camau i symud i ffwrdd o PSN i e-bost cwmwl, bod y dulliau o adnabod parthau a ganiateir yn newid. Cyflwynir archwiliadau awtomatig i brofi a yw negeseuon e-bost yn defnyddio TLS ac os nad ydynt, ni fydd negeseuon e-bost yn cael eu cyfnewid. Mae Crispin O'Connell, Prif Swyddog Technoleg Llywodraeth Cymru, yn ymdrin â hyn a disgwylir y bydd gohebiaeth yn dod gan lywodraeth y DU; mae angen i ni aros am hynny cyn cynnig cyngor yn ein cyfathrebiadau.

20. Mae angen trosglwyddo llyw.cymru a gov.wales i Jisc cyn y gallant ddarparu parthau newydd. Cytunwyd y byddai'n well trosglwyddo yn y flwyddyn newydd ac mae hyn wedi ei gynllunio ar gyfer yr wythnos gyntaf ym mis Ionawr.

**Cam gweithredu 10:** AD i gyfathrebu â sefydliadau cymwys ynglŷn â mabwysiadu cyfeiriadau e-bost @llyw.cymru a @gov.wales pan fydd safbwynt Llywodraeth y DU yn amlwg.

**Cam gweithredu 11:** RA i gydgysylltu â BC i drefnu trosglwyddo yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr 2016.